5 Tachwedd 2019

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chwi i gyfarfod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i'w gynnal Nos Fawrth,12 Tachwedd 2019 am 6.00 o'r gloch yr hwyr yn Siambr y Cyngor, Adeilad yr Institiwt, Caernarfon i drafod materion ar y Rhaglen a ganlyn:-

Yn gywir,

Sion Wyn Evans
Clerc y Dref

Rhaglen

Siaradwr Gwadd : Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar y 24ain o Fedi, cyflwyniad gan Geraint Hughes, Cynnal Tiroedd, Cyngor Gwynedd

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

3. **Datgan Buddiant Personol**

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

5.Cofnodion

1 gadarnhau y cofnodion canlynol :

i.Cyngor Llawn, 1 Hydref 2019 (**Atodiad Gwyrdd**)
ii. Pwyllgor Personél 22 Hydref 2019 (**Atodiad Melyn)**
iii. Panel Cyllid a Staff 22 Hydref 2019 **(Atodiad Pinc)**
iv. Pwyllgor Adloniant 5 Tachwedd 2019 **(Atodiad Glas)**
(yng nghefn y Rhaglen)

6.Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

7. Cysoni cyfrifon

8 .Meysydd Chwarae

Cyflwyno llythyr gan Amanda Murray, Rheolwr Prosiectau, Rheolwr Prosiectau, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd

9.Adroddiad o Gynhadledd a Chyfarfod Blynyddol Unllais Cymru, 5ed o Hydref, 2019

Cyflwyno adroddiad llafar gan y Clerc ar yr uchod.

10.Sicrhau Bioamrywiaeth Gwell

Cyflwyno llythyr gan Neil Hemington, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru ynghylch yr angen i sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth fel rhan o'r broses o ystyried cynigion datblygu.

11.Aelodaeth Anrhydeddus o Gylch Cyfeillgarwch Trefi Gogledd Cymru

Cyflwyno llythyr yn gofyn am enwebiad ar gyfer unigolyn sydd wedi rhoi gwasanaeth rhagorol i'r Cylch ac sydd, fel rheol, yn gadael gwasanaeth y Cylch.

12.Ymgynghoriadau Cynllunio

Cyflwyno gwybodaeth am Ymgynghoriadau Cynllunio sydd ar y gweill.

13.Enwebiadau ar Gyrff Llywodraethol Ysgolion

Enwebu aelod i gynrychioli'r Cyngor ar yr ysgolion canlynol:

- Ysgol Yr Hendre
- Ysgol Maesincla

14.Adeilad yr Institiwt

Cyflwyno adroddiad llafar gan y Clerc ar gyflwr yr Institiwt

15.Sgrîn Fawr – "live feed" o'r llawr sglefrio iâ

Cyflwyno cais gan Gavin Owen (HWB) i gael "live feed" o'r llawr sglefrio iâ i'r Sgrîn Fawr fydd ar y Maes rhwng y 19eg a'r 21ain o Ragfyr.

16. Cwrs CSAS Heddlu Gogledd Cymru

Cyflwyno gohebiaeth gan yr uchod.

17.National Energy Campaign

Cyflwyno gohebiaeth gan yr uchod.

18. Cath Wyllt yn yr Institiwt

Cyflwyno:

(a) Llythyr gan Helen Gwerfyl, Gwasanaeth Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau.
(b) E-bost gan Dr Gareth Wyn Griffith, Darllennydd Mycoileg, Prifysgol Aberystwyth.

19. Rhybudd o Gynnig

Cyflwyno Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Eleri Lovgreen:

Ar ran Gwyl Fwyd Caernarfon, gofynnaf i Gyngor Tre Caernarfon ehangu eu nawdd hael i'r digwyddiad i gynnwys printio posteri a thocynnau ar

gyfer yr amrywiol ddigwyddiadau codi pres y mae'r Wyl yn eu cynnal ar hyd y flwyddyn. Gan ein bod yn gwbwl ddibynnol ar godi pres a chasglu nawdd er mwyn i'r digwyddiad poblogaidd hwn gael ei gynnal, mae pob cefnogaeth yn help mawr.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu argraffu ryw 50 o bosteri ar gyfer chwech neu saith o ddigwyddiadau, a tua 100 o docynnau ar gyfer pob un o'r digwyddiadau hynny.

Gan obeithio yr edrychwch yn garedig ar ein cais.

20. ICO

Gofyn am ganiatâd y Cyngor i ail-ymaelodi o'r 9fed o Ionawr 2020.

21. Trefi Caerog

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod o'r Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar y 18fed o Fedi.

22. Safle Treftadaeth y Byd

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfod o'r Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau'r Trefi Brenin Edward yng Ngwynedd a gynhaliwyd ar y 20fed o Fehefin.

23. CAB

Cyflwyno, er gwybodaeth, wybodaeth am y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

24. Newid a gynigir i Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018

Cyflwyno gohebiaeth am yr uchod.

25.Cwestiynau